Teitl:	**Cydlynydd Marchnata a Recriwtio (Gwasanaeth Mabwysiadu De ddwyrain Cymru)**
Lleoliad:	**Gweithio Ystwyth / Mamhilad, Pont-y-pŵl**
Cyfarwyddiaeth:	**Gwasanaethau Plant**
Rhif y Swydd:	**BG14361**
Cyflog:	**Gradd 5 (£27,334 - £30,296 pro rata/y flwyddyn)**
Oriau:	**18.5**
Contract:	**Parhaol**

Crynodeb o'r Swydd

Cynorthwyo'r Grŵp Cydweithredol i ddatblygu a gweithredu strategaeth i recriwtio darpar fabwysiadwyr. Cydlynu ystod o weithgareddau marchnata a recriwtio a dilyn ymholiadau gan ddarpar fabwysiadwyr mewn modd amserol a phroffesiynol.

Prif Gyfrifoldebau

Gweithio ochr yn ochr â'r rheolwr yn y tîm recriwtio ac asesu i wneud y mwyaf o gyfleoedd hysbysebu a hyrwyddo mabwysiadu yn y rhanbarth.

Postio ymholiadau ac ymatebion cyfryngau cymdeithasol cymeradwy a chynnal cronfa ddata at ddibenion adrodd.

Cynhyrchu gwybodaeth reoli ar sylw yn y cyfryngau a chanlyniadau bob chwarter.

Gweithio gyda swyddogion cyfathrebu yn y pum awdurdod lleol sy'n ffurfio rhanbarth Mabwysiadu De ddwyrain Cymru.

Gweithio gyda'r cydweithwyr Marchnata a gomisiynwyd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

Cynorthwyo i ddatblygu gwefan annibynnol ar gyfer y gwasanaeth.

Bod yn gyfrifol am gymeradwyo a llanlwytho cynnwys ar y wefan.

Cadw at bolisïau a gweithdrefnau ariannol y Cyngor.

Cydymffurfio â rhannau perthnasol datganiad polisi'r Awdurdod ar iechyd a diogelwch a llesiant yn y gwaith.

Cadw at egwyddorion y Polisi Cydraddoldeb Corfforaethol a sicrhau ymrwymiad i ymarfer gwrthwahaniaethol.

Ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol yn ôl yr angen.

Am Wybodaeth Bellach Cysylltwch â: Helen Praito - 01495 353303

Cynhelir sgrinio cyn-gyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol (Manylach)

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.

Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.

Dyddiad Cau: **07.11.24 - 12:00 am, hanner nos**

Dyddiad Cyfweliad: **21.11.24**